Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

# CREST yng Nghymru – Gwobrau Grantiau

Mae rhaglen Wobrau CREST yn cael ei rhedeg gan Gymdeithas Wyddoniaeth Prydain, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru – trwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol – i gydlynu a chynyddu gweithgareddau mewn ysgolion yng Nghymru.

CREST yw cynllun gwobrau cenedlaethol mwyaf Prydain ar gyfer gwaith prosiect ym mhynciau STEM – sef Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg – a daw â gwyddoniaeth yn fyw trwy gynnig cyfleoedd i bobl ifanc 11-19 oed archwilio prosiectau'r byd go iawn mewn ffordd gyffrous ac arloesol.

Cewch wybod mwy yn : www.britishscienceassociation.org/crest

## Cymhwyster a Gwobrau

Gall ysgolion uwchradd a cholegau wneud cais am grant hyd at **£250** i gefnogi CREST. Mae holl ysgolion a cholegau Cymru yn gymwys i wneud cais. Mae'r ffurflen gais yn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r math o ysgol, ond bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn unig yn ôl sut y bwriedir i'r arian gael ei ddefnyddio.

## Beth yw cost Gwobrau CREST yng Nghymru fel arfer?

Gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth, mae Gwobrau CREST ar gael am gost gymorthdaledig ar hyn o bryd:

| | Ysgolion yng ngweddill y DU (fesul myfyriwr) | **Ysgolion yng Nghymru 2010-2012 (fesul myfyriwr)** |
|---|---|---|
| **Efydd** | £4 | **£1.20** |
| **Arian** | £8 | **£2.40** |
| **Aur** | £15 | **£4.50** |

## Ar gyfer beth y gallwch chi ddefnyddio cyllid CREST?

**Gallwch ddefnyddio'r grant i:**

- Brynu offer neu ddeunyddiau ar gyfer eich clwb STEM
- Dod ag arbenigedd allanol i mewn i helpu cynnal y gweithgarwch
- Talu costau cynnal cynllun CREST trwy eich clwb gwyddoniaeth neu dechnoleg presennol
- Gosod arddangosfeydd rhyngweithiol, arddangosiadau ac ymchwiliadau ar gyfer eich dosbarthiadau

- Talu costau cofrestru ar gyfer Gwobrau CREST.

## Ar beth y gellir gwario arian y grant?

Gellir defnyddio arian y grant i gofrestru ar gyfer CREST neu'r cynllun cyfatebol ar gyfer ysgolion Cynradd, *CREST Star Investigators*; nwyddau traul; teithiau maes; siaradwyr; cyflwynwyr; sioeau estyn allan neu gostau eraill gweithgareddau; neu ddigwyddiadau sy'n dathlu cyflawniadau eich myfyrwyr trwy CREST.

Ni ellir gwario arian y grant ar wobrau cystadlaethau mawr, costau cyflogau parhaus, costau sydd eisoes yn cael eu talu gan gyllid arall, costau rhedeg cyffredinol a gorbenion sy'n cael eu talu gan incwm arall, ac ni ellir gwario mwyafrif y grant ar luniaeth.

## Dyddiadau cau a thaliadau

Proses adolygu barhaus fydd hon, a chaiff ceisiadau eu hadolygu bob pythefnos. Os ydych eisoes yn gwneud gwaith prosiect a allai gyfrif tuag at Wobr CREST, yna gellir defnyddio'r grant i gefnogi'r gweithgareddau parhaus hyn.

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais drwy neges e-bost cyn gynted ag y gwneir penderfyniad.

Os byddwch chi'n llwyddiannus, bydd taliad yn cael ei wneud yn uniongyrchol i gyfrif banc penodol neu drwy siec (bydd yr ymgeisydd yn rhoi'r manylion ar y ffurflen gais). Mae'n rhaid i ymgeiswyr dderbyn y cynnig cyn y gwneir taliad.

Ni all Cymdeithas Wyddoniaeth Prydain ariannu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â CREST nad ydynt yn cael eu cynnal, a bydd rhaid dychwelyd y grant.

## Amodau'r grant

- Mae'n rhaid i'r arian alluogi pobl ifanc i gyflawni Gwobr CREST
- Mae'n rhaid i'r gwaith prosiect fod wedi'i gysylltu â gwyddoniaeth, peirianneg, mathemateg neu dechnoleg
- Mae'n **RHAID** llenwi ffurflen werthuso fer erbyn 31 Mawrth 2011.

**Os na fydd yr adroddiad gwerthuso wedi cael ei gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2011, neu os bydd eich gweithgarwch/cais am gymorth yn wahanol iawn i'r hyn a nodwyd yn eich cais, neu os bydd nifer y myfyrwyr sy'n cyflawni Gwobr CREST yn llai na'r hyn a bennwyd yn y cynllun, mae Cymdeithas Wyddoniaeth Prydain yn cadw'r hawl i ofyn i chi ddychwelyd yr arian.**

**Am y rhesymau hyn, sicrhewch fod gennych gynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd salwch neu amgylchiadau na ellir eu rhagweld.**

## Sut i wneud cais?

Llenwch y Ffurflen Gais fel dogfen Word.

Bydd y cais yn gofyn am:

1) Eich manylion cyswllt a chyfeiriad e-bost un cyswllt arall yn eich ysgol
2) Manylion banc yr ysgol
3) Manylion ynglŷn â'r hyn rydych yn bwriadu ei wneud trwy Wobrau CREST
4) Amlinelliad o'r gyllideb
5) Nifer y disgyblion yn eich ysgol a nifer yr unigolion fydd yn rhan o Wobrau CREST

Wrth gwblhau'r ffurflen gais, sicrhewch fod yr holl gyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn a manylion banc a roddir yn gywir. Bydd unrhyw gamgymeriadau yn golygu oedi o ran talu'r grant. Gan y byddwn yn cyfathrebu â chi yn bennaf trwy e-bost, sicrhewch eich bod yn rhoi cyfeiriad e-bost sy'n cael ei wirio'n rheolaidd gan yr unigolyn a wnaeth y cais am y grant.

Ar ôl cyflwyno eich cais ar-lein, byddwch yn derbyn cadarnhad drwy neges e-bost fod y tîm wedi'i dderbyn. Cadwch yr e-bost hwn ar gyfer eich cofnodion.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r drefn ymgeisio neu unrhyw agwedd o ddatblygiadau CREST yng Nghymru, anfonwch neges e-bost at cerian.angharad@see-science.co.uk neu liz.terry@see-science.co.uk neu ffoniwch 02920 801 644.

Er mwyn cael syniadau am brosiectau a chymorth ar sut i gynnal cynllun CREST yn eich ysgol neu glwb, ewch i'r tudalenau gwe ar www.britishscienceassociation.org/crest

**Cerian Angharad/ Elizabeth Terry**
See Science
Tŷ Norfolk
59 Heol Siarl
Caerdydd
CF10 2DG